Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass
Cymru

# Ymgysylltu ag Unigolion sy'n Cam-drin

Mai 2025



llyw.cymru

# Ymgysylltu ag Unigolion sy'n Cam-drin

Mae elusen Respect yn cynnig adnoddau i weithwyr proffesiynol sydd wedi cwblhau hyfforddiant Safe & Together™ mewn perthynas ag ymgysylltu'n broffesiynol ag unigolion sy'n cam-drin:

Engaging With: Perpetrators (Respect)

Lle bydd rhieni wedi dangos ymddygiadau camdriniol, rhaid i ni fabwysiadu dull gweithredu clir yn ein sgyrsiau â nhw ac, yn y pen draw, pan fyddwn yn asesu eu hymddygiad.

Er nad 'profi' bod trosedd wedi'i chyflawni yw ein swyddogaeth ni gan mai rôl y llys yw hynny, mae angen i ni ystyried y tebygolrwydd bod ymddygiadau camdriniol wedi codi a'u heffaith ar ddiogelwch a llesiant y plant.

Engaging fathers who commit family violence: Issues and challenges for family courts (Wiley Online Library)

## Pwyntiau Ymarfer

- Rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol y gallai defnyddio dull gweithredu Safe & Together™ yn ein hadroddiadau a'n trafodaethau â rhieni, yn enwedig y rhai sy'n cam-drin, beri i drais yn erbyn y dioddefwr-oroeswr/dioddefwyr-oroeswyr fynd yn waeth fel ffordd o ddial.
- Ein rôl yw asesu'r niwed posibl y mae cam-drin domestig yn ei achosi o ran llesiant a diogelwch plant a phobl ifanc, a llunio adroddiadau ar hyn. Wrth gynnal yr asesiadau hyn, rhaid i ni fod yn glir o ran pa ymddygiadau sy'n cael effaith niweidiol arnynt. Gall rhieni ymateb i'n hadroddiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd; gall rhai rhieni fod yn anfodlon arnynt neu'n ddig a gall y dicter hwn gael ei gyfeirio at y dioddefwr-oroeswr/dioddefwyr-oroeswyr.
- Dwyn unigolion sy'n cam-drin i gyfrif am eu hymddygiadau yn ein hadroddiadau yw'r dull gweithredu cywir; fodd bynnag, dylem ystyried a yw dioddefwyr-oroeswyr yn wynebu risg bellach, a oes angen mesurau diogelu pellach a/neu wasanaethau perthnasol eraill er mwyn helpu i gynllunio diogelwch.
- Dylai dioddefwyr-oroeswyr arwain ystyriaethau cynllunio diogelwch ar y cyd ag asiantaethau cynorthwyol; bydd ganddynt ddealltwriaeth well o'u hamgylchedd eu hunain, sbardunau posibl a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r wybodaeth hon yn sicrhau bod y cynllun diogelwch yn realistig ac yn berthnasol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-722-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Mae Safe & Together™ yn rhoi'r canllawiau canlynol i ni ar gynnal cyfweliadau â rhieni sy'n cam-drin:

## Paratoi

- Pa wybodaeth sydd eisoes gennych am y cyflawnwr? Gall hyn gynnwys unrhyw bryderon diogelu blaenorol, cofnodion troseddol, neu gofnodion o gysylltiadau blaenorol â'r llys teulu.
- A oes unrhyw ffynonellau/sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r teulu a allai roi gwybodaeth i chi?
- Sut y byddwch yn rheoli cyfrinachedd ar gyfer pob person yn ystod y cyfweliad hwn? Bydd hyn yn cynnwys rheoli gwybodaeth a allai beryglu diogelwch y dioddefwr-oroeswr / dioddefwyr-oroeswyr, megis ble mae'r unigolyn/unigolion yn byw neu ba asiantaethau sy'n rhan o'r broses.
- Pa ragofalon diogelwch sydd ar waith ar eich cyfer chi fel gweithiwr proffesiynol? Ystyriwch ble y caiff y cyfweliad ei gynnal, a oes cydweithwyr eraill o gwmpas ac ati.
- Dewch o hyd i fannau rhesymol sy'n ddiogel ac sy'n rhoi mwy o gyfle i sgyrsiau cynhyrchiol gael eu cynnal.

## Ymgysylltu

- Byddwch yn glir o ran diben y cyfarfod o'r dechrau.
- Esboniwch eich rôl mewn perthynas ag amddiffyn plant a llesiant.
- Dangoswch ddisgwyliadau uchel o ran magu plant ac ymddygiad.
- Casglwch wybodaeth o safbwynt yr unigolyn.
- Canolbwyntiwch ar ymddygiadau a dewisiadau'r unigolyn.
- Nodwch yn glir nad yw cam-drin yn dderbyniol a'i fod yn niweidiol i'r plentyn a gweithrediad y teulu.
- Gofynnwch am yr effaith y mae ymddygiad a dewisiadau'r unigolyn yn ei chael ar y plant.
- Ailgyfeiriwch sgyrsiau sy'n beio'r dioddefwr yn ôl at ddewisiadau ac ymddygiadau personol yr unigolyn.
- Canolbwyntiwch ar nodi meysydd ar gyfer atebolrwydd, newid a dewisiadau magu plant sy'n canolbwyntio ar lesiant a diogelwch y plentyn.
- Aseswch agweddau'r unigolyn tuag at ei ymddygiad ei hun.
- Cysylltwch ymddygiadau i'r effaith ar y plentyn/plant a gweithrediad y teulu.

## Cynllun Achos

- Aseswch y dystiolaeth a nodwch a yw'r cyflawnwr wedi cymryd cyfrifoldeb mewn unrhyw ffordd.
- A yw'n barod i newid a dilyn argymhellion?
- Nodwch a all unrhyw wasanaethau neu sefydliadau eraill gynnig cymorth i newid.
- Gosodwch ddisgwyliadau ymddygiadol clir sy'n unol â gofynion lles y plentyn/plant a lles y rhiant nad yw'n cam-drin / y teulu estynedig a'r gymuned.
- Os bydd y cyflawnwr eisoes yn ymwneud ag asiantaethau partner (boed yn rhai statudol, meddygol neu elusennol), ystyriwch y wybodaeth sydd ar gael gan y ffynonellau hyn, neu a oes angen ymyriadau priodol drwy gyfeirio at wasanaethau.
- Er y gallwn ddangos empathi mewn perthynas â heriau (trawma yn ystod plentyndod, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu rywbeth arall) a chydnabod y dylai unigolion gael cymorth i fynd i'r afael â'r rhain, nid ydynt yn esgusodi nac yn cyfiawnhau ymddygiad camdriniol, ac mae'n rhaid i ni asesu risg yr ymddygiadau hyn i ddiogelwch a llesiant plant ac oedolion, a'u heffaith arnynt. Dylai hyn wedyn lywio ein hargymhellion mewn perthynas ag amser teulu.

## Grymoedd Posibl a all Gymell Newid

- Tynnu sylw at y ffordd y gall yr unigolyn niweidio plant neu'r ffordd y mae wedi gwneud hyn (mae hyn yn cynnwys esbonio'r niwed y mae cam-drin y rhiant arall, p'un a fu'r plentyn/plant yn destun unrhyw gam-drin ai peidio, yn ei achosi i lesiant y plentyn).
- Tynnu sylw at y ffordd y mae difrodi'r gydberthynas rhwng plant a'r rhiant arall yn achosi niwed.
- Trafod profiadau, gobeithion ac ofnau'r unigolyn mewn perthynas â magu plant.

### Cwestiynau Ymarfer

- Pa fath o riant ydych chi am fod?
- Pa fath o gydberthynas ydych chi am ei chael â'ch plant?
- Beth ydych chi am i'ch plant ei feddwl / ei werthfawrogi am eich dulliau magu plant?
- Beth fydd eich plant yn ei ddweud amdanoch mewn pum mlynedd yn eich barn chi?
- Pan fyddwch yn ymddwyn mewn ffordd ______, sut mae hynny yn eich helpu i gyflawni'r nod hwn?
- Ydych chi wedi ystyried sut mae ymddygiad ____ yn effeithio ar eich plant/cyn-bartner?

## Rhaglenni i'r Rhai sy'n Cyflawni Cam-drin Domestig

Mae ymchwil yn awgrymu y gall y rhaglenni hyn fod yn effeithiol wrth wella canlyniadau i ddioddefwyr-oroeswyr a newid ymddygiadau pobl gamdriniol. Mae'n bwysig nodi, er mwyn i'r rhaglenni hyn fod yn effeithiol, rhaid i'r canlynol fod yn gymwys:

- Rhaid i'r rhaglen fod wedi'i hachredu gan Safon Respect; gall gwasanaethau a gaiff eu rhedeg yn wael gynyddu'r risg a gwneud dioddefwyr-oroeswyr yn fwy agored i niwed.
- Yr unigolyn ddylai ddewis cymryd rhan a dylai fod cymhelliant cynhenid dros wneud hynny; nid yw cymhelliant anghynhenid, megis i ddarparu 'tystiolaeth' o newid ar gyfer gweithdrefnau'r llys, yn debygol o arwain at newid parhaol.

[Taflen Ffeithiau ar Raglenni i'r Rhai sy'n Cyflawni Cam-drin Domestig (Respect)]

## Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 (Cyfraith Jade)

- O dan y ddeddf hon, gwnaed diwygiadau i gyfraith bresennol sy'n caniatáu i gyfrifoldeb rhiant unigolyn sy'n llofruddio rhiant arall gael ei atal pan gaiff yr unigolyn ei ddedfrydu.
- Caiff y mater ei adolygu gan farnwr wedyn er mwyn sicrhau bod hyn er lles pennaf y plentyn/plant.
- Nod hyn fydd amddiffyn plant a phobl ifanc yn ogystal â theulu ehangach y dioddefwr.

> "Parental responsibility can already be restricted by the court through a range of orders if it is in the best interests of the child. In the most serious cases, this can effectively amount to restricting all exercise of parental responsibility. These types of orders include Prohibited Steps Orders and Specific Issues Orders, and they can be made whether the parent has been convicted of a crime or not."
>
> (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2024[1])

## Cynllun Datgelu Trais Domestig (Cyfraith Clare)

Cynllun a reolir gan heddluoedd yw hwn sy'n rhoi'r hawliau canlynol i unigolion:

### Yr Hawl i Ofyn

- Sy'n golygu y gall unigolion, eu ffrindiau neu aelodau o'u teulu, gweithwyr cymdeithasol neu'r heddlu ofyn am wybodaeth am hanes partneriaid presennol neu gyn-bartneriaid o ymddygiadau camdriniol neu drais.
- Os ydych yn drydydd parti (nid yr unigolyn uniongyrchol sy'n wynebu risg), mae'n bosibl na fyddwch yn cael y wybodaeth yn uniongyrchol, ond gall yr heddlu ddewis rhannu'r wybodaeth hon â'r person sy'n wynebu risg neu â rhywun a all ddiogelu'r unigolyn hwnnw.

### Yr Hawl i Gael Gwybod

- Os bydd gwiriadau'r heddlu yn dangos y bu hanes o gam-drin neu drais, gall rannu'r wybodaeth honno'n rhagweithiol os bydd o'r farn bod yr unigolyn yn wynebu risg yn y dyfodol.
- Rhaid ystyried bod datgeliadau o dan y cynllun hwn yn gyfreithlon, yn gymesur ac yn angenrheidiol er mwyn lleihau risg neu ddiogelu unigolyn.
- Nid yw'n gyfyngedig i gam-drin corfforol yn unig, mae'n berthnasol i bob math o gam-drin a allai ddod o dan y diffiniad o gam-drin domestig.

---

1 Child rapists to automatically have parental responsibility stripped – GOV.UK (www.gov.uk)